# Atodiad 1: Cynllun Gweithredu

## 1. NOD CYFFREDINOL Y CYNLLUN

Sicrhau'r elw mwyaf posibl o eiddo gwag ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, a thrwy hynny gynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael i'w rhentu a bod yn eiddo i berchen-feddianwyr, gwella'r amgylchedd adeiledig, a lleihau nifer y safleoedd gwag a'r safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol, yn ogystal â chefnogi arallgyfeirio canol trefi.

## 2. AMCANION Y CYNLLUN A'R CAMAU GWEITHREDU CYSYLLTIEDIG

**Amcan 1: Hyrwyddo, addysgu a chefnogi perchnogion eiddo gwag a darpar brynwyr/datblygwyr**

| **Cam gweithredu**<br>Beth rydym yn mynd i'w wneud? | **Yr hyn a wnawn**<br>Sut ydym ni'n mynd i'w wneud? | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** | **Monitro Mesur Targed** |
|---|---|---|---|---|
| 1) Sicrhau bod y cyngor a gwybodaeth ddiweddaraf am eiddo gwag ar gael yn rhwydd ar dudalennau gwe'r cyngor | Ailwampio tudalennau gwe presennol a datblygu tudalennau gwe diwygiedig i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr, gan gynnwys y cyngor a chymorth ariannol sydd ar gael i helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd buddiol. Bydd gan y wefan ddolenni i gyfeirio partïon â diddordeb at wasanaethau perthnasol. Bydd swyddogaeth 'cysylltu â mi' hefyd yn cael ei chynnwys ar y dudalen we i annog ymgysylltu (bydd rheolau arbennig yn berthnasol os yw'r adeilad wedi'i restru). | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Arbenigwr TG ar y We ym Maes Tai<br>Swyddogion Cynllunio | Cynnal ymarfer cwmpasu cychwynnol i ddeall datblygiad y wefan a ffurflenni ar-lein erbyn mis Tachwedd 2024<br>Darparu blaenraglen waith wedi hynny | Ymarfer cwmpasu i ddeall datblygiad y wefan a ffurflenni ar-lein yn llawn<br>Cyfieithu cynnwys y wefan i'r Gymraeg<br>Adolygu tudalennau gwe<br>Nifer yr ymweliadau â'r wefan bob mis<br>Nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd trwy'r swyddogaeth cysylltu â ni |
| 2) Pecyn Gwybodaeth Eiddo Preswyl Gwag | Adolygu a diweddaru 'Pecyn Gwybodaeth Eiddo Preswyl Gwag' yr awdurdod gyda gwybodaeth allweddol, gan gynnwys y cyngor a chymorth ariannol sydd ar gael i helpu i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd buddiol ar gyfer perchen-feddiannaeth, rhentu ac ati, gan gynnwys gwybodaeth TAW a chyngor ar fenthyciadau, grantiau, lesio a gwerthu. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Rhagfyr 2024 | Cynhyrchu Pecyn Gwybodaeth Eiddo Preswyl Gwag<br>Nifer y Pecynnau Eiddo Preswyl Gwag a gyhoeddwyd<br>Nifer y pecynnau a lawrlwythwyd o'r wefan |
| 3) Datganiadau i'r cyfryngau, ymgysylltu â'r cyfryngau a hyrwyddo yn y cyfryngau | Datganiadau rheolaidd i'r cyfryngau fel erthyglau newyddion a negeseuon cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith eiddo gwag, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael a'r pecyn eiddo gwag. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Swyddogion Cyfathrebu | Yn rheolaidd | |

| **Cam gweithredu**<br>Beth rydym yn mynd i'w wneud? | **Yr hyn a wnawn**<br>Sut ydym ni'n mynd i'w wneud? | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** | **Monitro Mesur Targed** |
|---|---|---|---|---|
| 4) Gwneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi ariannol a defnyddio'r holl ffrydiau cyllid cyfalaf sydd ar gael | Parhau i gynnig, darparu a hyrwyddo cymorth ariannol i berchnogion mewn perthynas â'r benthyciadau di-log.<br>Archwilio ac adolygu'n rheolaidd unrhyw ffrydiau cyllido eraill sydd ar gael, megis rhaglenni grant allanol, pan fydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig.<br>Cyhoeddi'r holl wybodaeth sy'n ymwneud ag argaeledd cymorth ariannol ar wefan 'Cartrefi Blaenau Gwent' a diweddaru/diwygio Polisi Adnewyddu Tai'r Sector Preifat yn ôl yr angen.<br>Bydd Swyddogion Adfywio yn parhau i wneud cais am arian LlC (fel Trawsnewid Trefi, trwy Grantiau Creu Lleoedd Canol Trefi) i ddod ag eiddo canol trefi gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd buddiol.<br>Mae cyllid wedi'i sicrhau ym mlwyddyn ariannol 2024/25 ar gyfer cynllun grant canol trefi sydd wedi'i anelu at wella eiddo canol trefi. Mae'r holl gyllid hwn bellach wedi'i glustnodi. Nid yw manylion unrhyw raglenni olynol yn hysbys ar hyn o bryd.<br>Bydd y tîm adfywio hefyd yn defnyddio cynllun grant Cronfa Fenter Blaenau Gwent, sy'n cael cyllid craidd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, i gynorthwyo gyda gwelliannau i eiddo canol trefi, er bod y cynllun yn boblogaidd iawn ac yn hygyrch i fusnesau/eiddo ar draws y fwrdeistref sirol.<br>Ystyried defnyddio cyllid cyfalaf arall, megis y Grant Tai Cymdeithasol / y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, i gynorthwyo gyda dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd buddiol.<br>Adeiladau rhestredig – gwirio'r ffrydiau cyllido sydd ar gael, megis grantiau treftadaeth, a diweddaru swyddogion perthnasol gyda gwybodaeth ar gyfer y wefan. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Rheolwr Tîm – Atebion Tai<br>Arbenigwr TG ym Maes Tai<br>Arweinydd Tîm – Cyfleoedd Adfywio<br>Swyddog Datblygiadau Preswyl<br>Swyddogion Cynllunio | Adolygiadau rheolaidd drwy gydol yr amserlen | Nifer yr ymholiadau am gymorth ariannol bob blwyddyn<br>Nifer y gwerthiannau a gwblhawyd o ganlyniad i gymorth ariannol bob blwyddyn<br>Nifer yr eiddo sy'n dod yn ôl i ddefnydd buddiol bob blwyddyn |
| 5) Cyflwyno grantiau cartrefi gwag cenedlaethol (Tasglu'r Cymoedd) | Parhau i ddarparu'r Cynllun Grant Cartrefi Gwag Cenedlaethol ar gyfer perchen-feddianwyr. Sicrhau bod pob eiddo cysylltiedig yn cael ei ddychwelyd i ddefnydd buddiol. | Syrfewyr Grantiau Tai<br>Rheolwr Tîm – Atebion Tai | Yn parhau | Nifer y grantiau cartrefi gwag cenedlaethol a gwblhawyd<br>Nifer yr eiddo a dderbyniodd gyllid cartrefi gwag cenedlaethol sy'n dychwelyd i ddefnydd buddiol |
| 6) Datblygu rhestr o bobl sydd â diddordeb mewn prynu eiddo gwag | Parhau i gadw a chynnal rhestr o ddatblygwyr, landlordiaid a buddsoddwyr sydd â diddordeb mewn prynu eiddo gwag. Bydd hyn yn galluogi cyflwyno gwerthwyr a phrynwyr gyda golwg ar brynu, ailddatblygu a/neu ailfeddiannu eiddo gwag. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Yn parhau | Parhad o'r rhestr o ddatblygwyr<br>Nifer y cyflwyniadau a alluogwyd |
| 7) Gweithio gyda gwerthwyr tai a thai arwerthu lleol i gynnig cynhyrchion am bris gostyngol | Ymgysylltu â thai arwerthu a gwerthwyr tai lleol i drafod ffi ostyngol ac amodau ffafriol ar gyfer perchnogion eiddo gwag a gyfeiriwyd trwy'r awdurdod lleol. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Rhagfyr 2024 | Nifer yr atgyfeiriadau a wnaed |
| 8) Cynnig cymorth a chyngor technegol ar ddod ag eiddo preswyl gwag yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys cynhyrchu amserlenni gwaith ar gyfer gwaith a ariennir gan grantiau/benthyciadau, amcangyfrif o gostau, a chyngor technegol cyffredinol | Ymweld i roi cyngor penodol i'r eiddo ar y gwaith sydd ei angen i ddod â'r eiddo i safon resymol ac amcangyfrif o gost y gwaith.<br>Bydd angen cyngor arbennig os yw'r adeilad yn rhestredig. | Syrfewyr Grantiau Tai<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Swyddogion Cynllunio | Yn parhau | Nifer yr ymweliadau cynghori a wnaed<br>Gwaith grant/benthyciad wedi'i gwblhau gyda chymorth technegol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9) Ymgysylltu â rhanddeiliaid tai cymdeithasol i drafod cynlluniau cydweithio posibl | Cyfarfod â'r holl ddarparwyr tai cymdeithasol sy'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i drafod ffyrdd o gydweithio ar brosiectau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.<br>Bydd hyn yn cynnwys adeiladau rhestredig (lle bo'n berthnasol). | Rheolwr Tîm – Atebion Tai<br><br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br><br>Swyddogion Cynllunio | Cyfarfod cychwynnol erbyn Tachwedd 2024<br><br>Yn parhau | Rhaglen barhaus o gyfarfodydd |

**Amcan 2: Blaenoriaethu a dull wedi'i dargedu wrth fynd i'r afael ag eiddo gwag**

| **Cam gweithredu**<br>Beth rydym yn mynd i'w wneud? | **Yr hyn a wnawn**<br>Sut ydym ni'n mynd i'w wneud? | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** | **Monitro Mesur Targed** |
|---|---|---|---|---|
| 10) Cyflwyno adroddiad i gynyddu premiwm y dreth gyngor o bosibl ar eiddo sydd wedi bod yn wag ers dros 12 mis | • Casglu gwybodaeth am nifer gwirioneddol yr eiddo y byddai'r cyngor yn gymwys i godi premiwm arnynt<br>• Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>• Cynhyrchu adroddiad yn amlinellu'r rhesymeg dros gynyddu premiwm y dreth gyngor a chychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig (bydd hyn yn cynnwys canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus)<br>• Gofyn am gymeradwyaeth i gaffael adnoddau staffio ychwanegol ar gyfer yr adrannau Refeniw a Diogelu'r Cyhoedd i gynorthwyo gyda gweithredu'r strategaeth hon | Rheolwr Gwasanaeth – Refeniw ac Asesiadau Codi Tâl<br>Prif Swyddog Cyllid | Gorffennaf 2024 | Nifer yr eiddo y codir premiwm arnynt yn dilyn mabwysiadu/gweithredu polisi newydd |
| 11) Dadansoddi data'r dreth gyngor a data arall i ddeall yn llawn hyd a lled y broblem cartrefi gwag yn y fwrdeistref | • Datblygu rhestr gynhwysfawr o'r holl gartrefi gwag o fewn y fwrdeistref, gan edrych ar sawl categori, megis lleoliad, lefel y dyledion perthnasol, yr angen am dai, a nifer y blynyddoedd y bu'r cartref yn wag<br>• Cynnal arolygon ategol yn ôl yr angen<br>• Mapio'r data yn ofodol i gynorthwyo gyda dull gweithredu strategol wedi'i dargedu wrth symud ymlaen | Rheolwr Gwasanaeth – Refeniw ac Asesiadau Codi Tâl<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Rhagfyr 2024 | Datblygu rhestr gynhwysfawr o gartrefi gwag yn y fwrdeistref<br>Mapio data yn ofodol<br>Nodi eiddo sy'n cael effaith negyddol |
| 12) Cytuno ar feini prawf blaenoriaethu ar gyfer eiddo gwag | Cytuno ar y meini prawf a ddefnyddir i flaenoriaethu eiddo gwag a'r templed asesiad risg. | Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd<br>Rheolwr Tîm – Atebion Tai<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Swyddogion Adfywio | Rhagfyr 2024 | Offeryn blaenoriaethu y cytunwyd arno |
| 13) Sefydlu rhestr flaenoriaeth o eiddo i'w dargedu'n rhagweithiol | Nodi anheddau gwag blaenoriaeth uchel i'w targedu er mwyn dod â nhw'n ôl i ddefnydd buddiol. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Yn parhau o Ionawr 2025 | Nodi/rhestru eiddo targed ar gyfer defnydd preswyl a chymysg (defnydd masnachol a phreswyl) |
| 14) Targedu'n rhagweithiol yr eiddo gwag â blaenoriaeth a nodir yng ngham gweithredu 13 | Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i anfon llythyrau cychwynnol, holiaduron a phecynnau eiddo gwag. Targedu nifer hylaw o 20–30 y mis, gan weithio i lawr y rhestr flaenoriaeth. Anfon llythyron dilynol at unrhyw un nad yw'n ymateb cyn uwchgyfeirio at y swyddog ar gyfer ymyrraeth bellach. | Cymorth Busnes<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Yn parhau o Ionawr 2025 | Ymateb i holiadur<br>Ymgysylltu a nifer yr eiddo a ddychwelwyd yn ôl i ddefnydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 15) Targedu eiddo sydd wedi dod o dan y meini prawf eiddo gwag yn ddiweddar i'w hatal rhag dod yn wag am gyfnod hir | Dull meddal o anfon y pecyn eiddo gwag trwy'r post at bob perchennog eiddo gwag o fewn y 6–12 mis cyntaf o fod yn wag i atal yr eiddo rhag dod yn wag am gyfnod hir. Camau cynghori a rhoi gwybodaeth yn unig. | Cymorth Busnes<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Mawrth 2025 | Nifer y llythyrau a anfonwyd<br>Nifer yr ymrwymiadau |
| 16) Rhestrau eiddo gwag ar gyfer y prif ganol trefi | Cynnal/diweddaru arolygon o eiddo gwag yng nghanol trefi, gan eu defnyddio i fonitro/nodi/asesu eiddo masnachol / defnydd cymysg gwag hirdymor. | Swyddogion Adfywio<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Mawrth 2025 | Bydd canol trefi'n cael eu monitro'n rheolaidd, gan ychwanegu eiddo at y rhestr, neu dynnu eiddo oddi arni, yn ôl yr angen |
| 17) Cynllun gweithredu ar gyfer eiddo gwag yn y prif ganol trefi | Targedu perchnogion a/neu asiantau eiddo â blaenoriaeth i ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd buddiol drwy gynlluniau grant (lle bo'n bosibl) neu drwy gynorthwyo i nodi tenant neu ddefnydd dros dro.<br>Lle bo'n berthnasol, gellir cyflwyno hysbysiadau pan fo'r adeilad mewn cyflwr eithriadol o wael neu'n beryglus. | Swyddogion Adfywio<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Swyddogion Cynllunio / Rheolaeth Adeiladu | Cysylltir â pherchnogion / cyflwynir hysbysiadau yn Ch3 25/26 | Nifer y grantiau a roddwyd i berchnogion eiddo gwag hirdymor<br>Nifer yr eiddo a ddygwyd yn ôl i ddefnydd buddiol trwy ymyrraeth wedi'i thargedu |
| 18) Gweithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid y sector preifat i gynnig cynllun paru tenantiaid/perchnogion | • Datblygu cronfa o lety rhent preifat hygyrch a fforddiadwy o safon a darparu ateb tai hirdymor i ymgeiswyr digartref. Dylai hyn alluogi'r cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gyflawni'r ddyletswydd ddigartrefedd drwy gynnig y llety hwn i bobl ddigartref neu bobl a allai fod yn ddigartref.<br>• Datblygu gwefan hawdd ei defnyddio ar gyfer landlordiaid.<br>• Parhau i weithio ochr yn ochr â'r fforwm landlordiaid preifat a gynhelir gan gynghorau Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, a darparu llwyfan rhwng y sector rhentu preifat a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. | Rheolwr Tîm – Atebion Tai<br>Arbenigwr TG ym Maes Tai<br>Swyddog Cynaliadwyedd Tenantiaeth | Yn parhau | Targedu dau eiddo y mis<br>Ionawr 2025<br>Medi 2024 ac yn parhau |
| 19) Adolygu llwybr llety'r sector preifat i ddiwallu anghenion y rhai sy'n mynd at yr Tîm Atebion Tai | Cynnwys cynnydd cyfredol gyda chynllun Iesio Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad diweddaru ar ddigartrefedd i dîm rheoli'r gyfarwyddiaeth / y tîm arweinyddiaeth corfforaethol a'r Pwyllgor Craffu. | Rheolwr Tîm – Atebion Tai | Bob blwyddyn | Penderfyniad ar ganlyniad yr adroddiad |
| 20) Sicrhau dull corfforaethol o ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, gan gydlynu gweithgarwch perthnasol gan yr awdurdod lleol ar draws pob adran i sicrhau bod yna ddull unedig ac effeithiol o ymdrin ag eiddo gwag | • Cwrdd â'r holl adrannau perthnasol o fewn yr awdurdod i amlygu'r gwaith parhaus yn y tîm eiddo gwag. Hyrwyddo'r hyn y gall y tîm ei wneud i'w cynorthwyo, gan amlygu manteision dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ar gyfer y gymuned gyfan, gan gynnwys sut y gall helpu eu maes gwaith penodol.<br>• Sefydlu Grŵp Eiddo Gwag Blaenau Gwent gyda'r holl randdeiliaid mewnol i sicrhau ymgysylltiad parhaus. | Rheolwr Gwasanaeth – Diogelu'r Cyhoedd<br>Rheolwr Tîm – Atebion Tai<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Swyddogion Adfywio<br>Swyddogion Cynllunio | Hydref 2024 – yn barhaus bob 3 mis | Sefydlu gweithgor eiddo gwag corfforaethol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 21) Sicrhau ymgysylltiad a mewnbwn gan randdeiliaid allanol | Sefydlu gweithgor allanol gyda rhanddeiliaid trydydd sector perthnasol fel yr heddlu a'r awdurdod tân. | Rheolwr Tîm – Atebion Tai<br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol | Dyddiad y cyfarfod cychwynnol – Ionawr 2025<br>Yn barhaus – bob 4 mis | Sefydlu gweithgor allanol |

**Amcan 3: Cymryd camau gorfodi priodol i ymdrin yn effeithiol ag eiddo gwag**

| **Cam gweithredu**<br>Beth rydym yn mynd i'w wneud? | **Yr hyn a wnawn**<br>Sut ydym ni'n mynd i'w wneud? | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** | **Monitro<br>Mesur<br>Targed** |
|---|---|---|---|---|
| 22) Ymagwedd moron a ffyn, gan roi camau gweithredu mwy uniongyrchol ar waith ar gyfer unrhyw berchnogion sy'n methu ag ymgysylltu'n anffurfiol â'r cyswllt rhagweithiol<br>Ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer eiddo masnachol gwag hirdymor | • Sicrhau bod yr holl berchnogion sy'n methu ag ymateb i'r llythyrau cyswllt cychwynnol yn dod yn destun ymyrraeth bellach – megis ymweliadau safle i asesu unrhyw gamau y gellir eu cymryd o dan y ddeddfwriaeth berthnasol<br>• Dull cynhadledd achos, yn ôl yr angen, gyda chydweithwyr i nodi'r math mwyaf priodol o ymyriad gorfodi<br>• Defnyddio dull asesu risg i flaenoriaethu camau gorfodi<br>• Cyflwyno hysbysiadau gorfodi brys lle mae eiddo mewn cyflwr sy'n arbennig o beryglus ac adfeiliedig neu'n achosi niwsans statudol | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd<br>(Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Technegydd Iechyd yr Amgylchedd<br>(Diogelu'r Amgylchedd)<br>Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd eraill<br>Swyddogion Cynllunio<br>Swyddogion Rheolaeth Adeiladu | Yn ôl y gofyn / fel y bo angen | Nifer yr ymweliadau safle a gwblhawyd<br>Nifer yr hysbysiadau a gyflwynwyd<br>Camau gorfodi wedi'u cymryd |
| 23) Ymchwilio i bob cwyn adweithiol a dderbyniwyd ynghylch eiddo gwag | • Ymchwilio i bob cwyn a dderbyniwyd ynghylch eiddo gwag a manteisio ar bob cyfle i weithio gyda'r perchennog i fynd i'r afael â'r pryderon parhaus a chytuno ar ffordd o ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd, lle bo'n briodol trwy ddull cynhadledd achos. Nodi'r math mwyaf priodol o ymyriad.<br>• Asesir cwynion mewn perthynas ag eiddo masnachol i ddechrau i weld a yw'r adeilad yn beryglus ac a ddylid cyflwyno hysbysiadau neu gyflawni gwaith brys yn ddiofyn. Bydd swyddogion yn ceisio gweithio gyda'r perchnogion i ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd buddiol. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd<br>(Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Swyddogion Cynllunio ac Adfywio<br>Swyddogion Rheolaeth Adeiladu<br>Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd<br>Technegydd Iechyd yr Amgylchedd<br>(Diogelu'r Amgylchedd) | Yn ôl y gofyn | Nifer y cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â chartrefi gwag |
| 24) Ymgysylltu â phob adran i sicrhau bod yr holl gamau gorfodi ar eiddo gwag yn cael eu hamlygu a bod dyledion yn cael eu hadennill | Sicrhau bod unrhyw ymgysylltiad neu waith a gyflawnir yn ddiofyn ar eiddo gwag yn cael ei adrodd i'r tîm eiddo gwag er mwyn sicrhau bod y ddyled yn cael ei hadennill. Ystyried gwerthu gorfodol ar gyfer unrhyw rai sy'n methu â thalu. | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br>Cyfreithiwr<br>Refeniw<br>Arall | Yn parhau | Cyfarfod â'r holl adrannau perthnasol i drafod arferion gwaith<br>Rhoi gwybod am bob achos o gyflawni gwaith yn ddiofyn i'r Swyddfa Eiddo Gwag<br>Gofyn am wybodaeth am eiddo gwag sydd â dyledion heb eu talu bob pedwar mis<br>Nifer yr achosion lle mae dyledion yn cael eu hadennill yn anffurfiol |
| 25) Sicrhau bod yna fecanwaith adennill dyledion effeithiol ar gyfer yr holl waith a gyflawnir yn ddiofyn drwy'r llwybr gwerthu gorfodol | Gweithredu'r polisi a gweithdrefn gwerthu gorfodol i adennill dyled sy'n weddill trwy werthu gorfodol. | Prif Swyddog Tai<br>Swyddogion Cynllunio<br>Swyddogion Cyfreithiol | Yn ôl y gofyn | Nodi eiddo gyda dyled berthnasol i symud ymlaen gyda'r weithdrefn gwerthu gorfodol<br>Nifer y gwerthiannau gorfodol llwyddiannus<br>Swm y ddyled a adenillwyd |

| **Cam gweithredu**<br>Beth rydym yn mynd i'w wneud? | **Yr hyn a wnawn**<br>Sut ydym ni'n mynd i'w wneud? | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** | **Monitro**<br>**Mesur**<br>**Targed** |
|---|---|---|---|---|
| 26) Hyrwyddo pob cam gorfodi llwyddiannus i amlygu safbwynt yr awdurdod ar eiddo gwag | Gweithio gydag adran gyfathrebu'r awdurdod i sicrhau bod straeon llwyddiant yn cael eu hamlygu drwy gyfryngau amrywiol. | Prif Swyddog Tai – Cymunedau<br><br>Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Eiddo Gwag) Arbenigol<br><br>Swyddog Cyfathrebu | Yn rheolaidd | Nifer yr erthyglau ac achosion at ddibenion hyrwyddo |

Diwedd